

Ers cychwyn y pandemig COVID-19 a'r cyfnod cloi mae nifer o ddarparwyr gofal plant wedi cau eu drysau neu'n cynnig gwasanaeth cyfyngedig. Bu'n rhaid i nifer o ddarparwyr wneud penderfyniadau ar frys, ac o bosib ni chawsant gyfle i sicrhau diogelwch eu cyflenwad dŵr tra'u bod ar gau. Paratowyd y canllaw hwn gan CWLWM i gefnogi darparwyr gofal plant wrth iddynt baratoi i ailagor a dod a'r cyfnod cloi i ben.

Beth yw Clefyd y Lleng Filwr?

Math o niwmonia yw clefyd y lleng filwr. Achosir pan anadlir defnyddau o ddŵr sy'n cynnwys bacteriw clefyd y lleng filwr i'r ysgyfaint. Bydd y bacteriw yn bodoli yn unrhyw system dŵr pwrpasol, ac mae'n ffynnu mewn dŵr llonydd (h.y. cyflenwad na ddefnyddir neu a ddefnyddir yn anaml.)

Pam fod y risg yn uwch ar ôl y cyfnod cloi?

Mae risg barhaol y bydd bacteriw yn bresennol yn y dŵr; fodd bynnag mae'r amgylchiadau canlynol yn cynyddu'r risg:

Os yw'r dŵr yn cronni yn y system am wythnos neu ragor bydd y bacteriw yn ffynnu.

Gall y tywydd twym diweddar cynyddu tymheredd y dŵr yn y system yn uwch na 20°C, a bydd hwn yn achosi i'r bacteriw ffynnu.

Fel arfer, byddai dŵr poeth (50°C neu uwch) yn rhedeg trwy'r system ac yn gwaredu'r bacteriw, ond os na ddefnyddiwyd y system yn ddiweddar bydd y dŵr dal wedi'i halogi.

O ganlyniad i COVID-19 bydd gan nifer gynyddol o bobl systemau resbiradol gwan, a bydd yn eu gadael hwy'n fwy agor i glefyd y lleng filwr.

Beth yw'r Sefyllfa Gyfreithiol?

Mae yna nifer o reoliadau sy'n berthnasol i ddarparwyr Gofal Plant. Mae Safon 24 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ymwneud â diogelwch cyffredinol, ac mae'n ofynnol i gynnal asesiad risg pan fod yna newidiadau i'r lleoliad, neu i anghenion y plant. Mae deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn ei wneud yn ofynnol i

berchenogion a rheolwyr busnes rheoli risgiau sy'n ymwneud â systemau dŵr, ac i gadw nhw'n ddiogel ar gyfer defnyddwyr.

Beth Sydd Angen i Chi Wneud Nesaf?

Mae'n bwysig eich bod yn cynnal asesiad risg llawn cyn agor yn unol â chyngor CIEH, gan gynnwys asesu natur y cyflenwad dŵr a'r risg i unigolion all fod yn fwy agored i afiechydon resbiradol. Os ydych yn rhentu, trafodwch y sefyllfa gyda'ch Landlord gan fod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn ddiogel. Penderfynwch pa fath o system dŵr oer a phoeth sydd gennych. Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi a lleoliadau systemau syml all eu diogelu trwy ddilyn ychydig o weithdrefnau syml.

Yn gyntaf, rhedwch ddŵr drwy'r system am gyfnod o amser er mwyn cael gwared ar unrhyw ddŵr sydd wedi bod yn sefyll yn y system.

Nodwch - mae'n bwysig leihau'r risg o fewnanadlu defnyddau yn ystod y broses, felly fflyshiwch y toiled gyda'r sedd lawr a gwisgwch fasg addas neu rhedwch y dŵr yn araf er mwyn lleihau ar y sblasio.

Cynyddwch dymheredd y systemau dŵr poeth i 60°C os yn bosib, gan dynnu dŵr drwy'r holl allfeydd dŵr poeth. *Nodwch fod dŵr o'r tymheredd yma yn medru llosgi. Dylai fod gan bob lleoliad gofal plant falf cymysgu thermostatig er mwyn gostwng y tymheredd i 43°C.*

Cadwch gofnod o'r dyddiad, amser a'r person sy'n gyfrifol am y broses. Os yw eich system yn fwy cymhleth, neu os oes gennych bryderon ychwanegol, yna ddylech geisio cyngor gan Adran Iechyd Amgylcheddol eich Awdurdod Lleol, neu gynghorydd arbenigol. Gwybodaeth bellach. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan:

Chartered Institute of Environmental Health.
<https://www.cieh.org/media/4208/legionella-guidance-covid-19.pdf>

Health & Safety Executive
<https://www.hse.gov.uk/>